*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Parod i Ddysgu

## Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad i Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w galluogi i gyflawni eu potensial a'u hannibyniaeth yn ystod eu dysg, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Mae gan y coleg ddyletswydd gofal ac mae wedi ymrwymo i gefnogi llesiant dysgwyr gyda'r nod o sicrhau dull cadarnhaol o reoli problemau iechyd meddwl a chorfforol a allai effeithio ar allu'r dysgwr i ymgysylltu â'i ddysg. Mae'r Polisi hwn yn nodi cyfrifoldebau Coleg Caerdydd a'r Fro i ymateb yn briodol o ran llesiant dysgwyr a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y dysgwr yn ogystal â llesiant eraill o'i gwmpas.

Bwriad y Polisi hwn yw hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgwyr ac mae'n dangos ymrwymiad y Coleg i gynnal llesiant dysgwyr, drwy'r gweithdrefnau cysylltiedig y dylid eu dilyn pan fo ymddygiad dysgwr yn galw am reolaeth ystyriol a sensitif, yn hytrach na chamau disgyblu. Yn ogystal, sicrhau bod cymorth ac arweiniad prydlon ar gael i ddysgwyr a staff pan fo dysgwr yn mynd yn sâl a/neu yn peri risg iddo'i hun a/neu i eraill.



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 7 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 13/06/24 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 13/06/26 |

## Datganiadau Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Coleg, waeth beth fo modd neu leoliad yr astudiaeth.
- Holl staff o fewn y Coleg.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Ymrwymiad i fodel cymdeithasol anabledd gyda'r nod o gyfyngu ar y rhwystrau y gallai unigolyn eu hwynebu oherwydd ei anabledd neu anhawster dysgu, er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.
- Hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u deall fel unigolion a bod eu dymuniadau'n cael eu hystyried. Fel rhan o hyn, mae gennym ymagwedd sensitif, gyson ac anfeirniadol tuag at reoli sefyllfaoedd sy'n galw am lefel briodol o ymyrraeth.
- Ymrwymiad i ddulliau adferol i sicrhau ein bod yn mabwysiadu cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.
- Ymrwymiad i ddulliau sydd wedi'u llywio gan drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ymateb i bryderon yn ymwneud a llesiant unigolyn.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwyr er mwyn mabwysiadu agwedd bartneriaeth tuag at ddiogelu a llesiant.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Gefnogi dysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion unigol lle y bo'n rhesymol i wneud hynny (yn ôl y diffiniad sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018), a nodi a gweithredu addasiadau rhesymol lle bo'n briodol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Sefydlu gweithdrefnau er mwyn darparu dull cydlynol o reoli, cofnodi a monitro sefyllfa lle y daw i'r amlwg bod llesiant dysgwr yn ei rwystro rhag cael budd o'r ddarpariaeth addysgol a hyfforddiant ar adeg benodol, neu'n effeithio'n andwyol ar brofiadau dysgwyr eraill, neu wedi ymestyn y tu hwnt i'r gefnogaeth fugeiliol a llesiant y gellir ei darparu'n rhesymol gan y Coleg. Ar gyfer dysgwyr AU sy'n ymgymryd â darpariaeth freiniol, bydd y Coleg yn cyfeirio at y gweithdrefnau prifysgol perthnasol.
- Sicrhau cefnogaeth briodol i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan, neu sy'n cael eu cynnwys yn, y rhyngweithiad â dysgwyr eraill yn yr amgylchiadau a grybwyllwyd eisoes.

- Ystyried gosod, yn gyfreithiol, gwaharddiad dros dro neu waharddiad parhaol a chyfiawnhad am ymddygiad o'r fath.
- Rhoi gwybod i gymuned y Coleg am y polisi hwn a'n gweithdrefnau.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o gynhwysiant ac arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws cymuned y Coleg.
- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi, a'n hymateb i'r ymddygiadau a amlinellir yn y polisi hwn, yn rheolaidd.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Mae'r Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff er mwyn annog gweithredu'r polisi ac ymateb effeithiol i unrhyw feysydd sy'n destun pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. Derbyniadau, Tiwtorial etc. yn rhan o'r gweithdrefnau hyn.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion na nod y polisi hwn.

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am:

- Drin pob dysgwr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu dramgwydd.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ac o weithio oddi mewn iddynt mewn modd cefnogol.
- Gweithio o fewn gofynion y Polisi Diogelu Data.
- Dilyn y polisi mewn perthynas â dymuniad dysgwr am gyfrinachedd (pan fo'n ddiogel gwneud hynny).
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Mynychu sesiynau cynefino a sesiynau tiwtorial/adolygu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ganddo.
- Rhoi adborth i'r staff ar agweddau sy'n ymwneud â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.

**Materion Diogelu Data**

Mae holl staff y Coleg yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a gofynion y Polisi Diogelu Data 2018. O dan y ddeddf hon, ystyrir yr holl ddata sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a chorfforol unigolyn yn ddata personol, sensitif. At ddibenion y Polisi hwn, caiff data sensitif ei ystyried yn wybodaeth a roddir yn gyfrinachol am, er enghraifft, salwch neu anabledd dysgwr, yn cynnwys salwch iechyd meddwl.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Goblygiadau Iechyd a Diogelwch**

Gall fod amgylchiadau lle'r ymddengys bod gwrthdaro rhwng materion Parod i Ddysgu ac iechyd a diogelwch gweithwyr a dysgwyr. Ymdrinnir â phob cais ar sail unigol.

**Polisïau Cysylltiedig**

- Diogelu
- Diogelu Data
- Bwlio ac Aflonyddu
- Camddefnyddio Sylweddau
- Ymddygiad Dysgwyr
- Datgelu
- Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Ansawdd
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Polisi Cwynion Dysgwyr

## Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Camddefnyddio Sylweddau
- Ymddygiad Dysgwyr
- Datgelu
- Cwynion Dysgwyr
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

**Lleoliad a Mynediad at y Polisi**

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y coleg.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: 19eg Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol: Uwch Bennaeth Taith y Dysgwr a Dysgu Cynhwysol** |
| **Cymeradwywyd gan: Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Dyddiad adolygu: 19eg Mehefin 2026** | **Ar gael i Ddysgwyr: Ydy** |